SIARC

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund | Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government | ON THE EDGE

## UCHAFBWYNTIAU



Cymerodd dros 60 o ddisgyblion o naw ysgol wahanol yn Sir Gaerfyrddin ran mewn tri digwyddiad o arddangosiadau 3D a gynhaliwyd yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Bu'r disgyblion yn dangos eu harddangosiadau 3D o'r amgylchedd morol ac yn rhannu eu gwybodaeth am siarcod, morgwn a morgathod ag ymwelwyr â'r gerddi.







Mae llyfr gwaith i blant ar gasys wyau wedi'i lansio a gellir ei lawrlwytho o wefan Prosiect SIARC.

Bydd y rhain hefyd yn cael eu defnyddio mewn ysgolion i helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella ymgysylltiad â'r Great Eggcase Hunt a Phrosiect SIARC yng Nghymru.

# ADRODDIAD PROSIECT 4: EBRILL - GORFFENNAF 2024

## PARTNERIAETHAU PYSGOTWYR

- Ymwelwyd â Siopau Offer Pysgota o amgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd i rannu canllawiau adnabod a thaflenni Prosiect SIARC
- Pysgotwyr wedi rhannu dau gofnod Maelgwn â'r prosiect.
- Adborth wedi'i rannu am ddatblygiad y cyfle interniaeth Pysgotwr Ifanc.

## TEGWCH, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT (EDI)

- Y gwaith yn mynd yn ei flaen i ganfod sut i wneud digwyddiadau ac adnoddau yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o hunaniaethau.

## SYSTEMAU FIDEO TANDDWR O BELL AG ABWYD (BRUVS) AC INSTANT WILD

- 18 o BRUVS wedi'u gosod yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.
- Arolygon tagio maelgwn wedi'u cwblhau, ond dim maelgwn wedi'u dal yn ystod yr arolygon. (Cynhelir y gwaith tagio gyda thrwyddedau, yn cynnwys trwydded Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad).

## YMGYSYLLTU AG YSGOLION

- Sesiynau Cwrdd â'r Gwyddonydd a wedi'u cwblhau gyda chwe ysgol yn ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd fel rhan o'r rhaglen allgymorth argraffu 3D.

## DINASYDDION-WYDDONWYR

- 247 o bobl wedi cymryd rhan mewn saith digwyddiad helfa wyau o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau.

## DADANSODDI

- Llawysgrif ar ffactorau a achosir gan bysgotwyr o ran newid mewn pysgodfeydd yng Nghymru dan dair thema (economaidd-gymdeithasol, ecolegol a deddfwriaethol) wedi'i chyflwyno i gyfnodolyn gwyddonol.
- Llawysgrif ar ddefnydd o DNA Amgylcheddol ar gyfer elasmobranciaid oddi ar arfordir Cymru mewn drafft.

## YMGYSYLLTIAD EHANGACH

- Cyfryngau cymdeithasol wedi cyrraedd 20,381 o gyfrifon
- Erthygl yn canolbwyntio ar y Great Eggcase Hunt wedi'i chyhoeddi yn Rhifyn yr Haf o Natur Cymru
- e-gylchlythyr wedi'i anfon – cofrestrwch [yma] i gael y wybodaeth ddiweddaraf

## GRŴP YMCHWIL

- Dim diweddariadau

## DIGWYDDIADAU DYRANNU

- Dyraniad o Faelgi i'w gwblhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## RHEOLI'R PROSIECT

- Dim diweddariadau

| Dibenion Cymeradwy (NNF) | Cynnydd |
|---|---|
| PARTNERIAETH PYSGOTWYR - Cyd-gynllunio Prosiect Siarc gyda physgotwyr a'u cymdeithasau neu glybiau, trwy berthnasoedd gwaith cryfach a mwy amrywiol. | |
| DELIO Â BYLCHAU DATA - Llenwi bylchau data â blaenoriaeth ar sut mae elasmobranciaid yn defnyddio nodweddion gwarchodedig mewn dwy ACA; defnyddio data yng nghyngor a phenderfyniadau CNC, mewn cydweithrediad agos â physgotwyr. | |
| TEGWCH, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT - Dealltwriaeth o safbwyntiau amrywiol a ddefnyddir i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad a chyflawni mwy o degwch, amrywiaeth a chynhwysiant ym maes cadwraeth forol yng Nghymru. | |
| CYNNWYS CYMUNEDAU - Mynediad demograffig ehangach i'r amgylchedd morol yng Nghymru gan ddefnyddio rhith-realiti, gweithgareddau GEH ac Instant Wild | |
| YSBRYDOLI'R GENHEDLAETH NESAF - Mae plant ysgol o gefndiroedd amrywiol yn cyflawni deilliannau dysgu ar gynaliadwyedd a'r byd naturiol ac yn dangos hyder mewn technolegau digidol. | |
| ARDDANGOS AMGYLCHEDD MOROL CYMRU - Mae mwy o amrywiaeth o gymunedau yng Nghymru yn dysgu am yr amgylchedd morol, gan ddefnyddio elasmobranciaid fel y canolbwynt mewn cyfathrebu dwyieithog. | |